OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2915 (Cy.255)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Tachwedd 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *3 Tachwedd 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *25 Tachwedd 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 8, 9 a 10 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) (Diwygio) 2009. Daw i rym ar 25 Tachwedd 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009**

**2.**—(1) Diwygir Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009(**3**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn y testun Cymraeg, yn erthygl 7(1)(ch), rhodder y gair “gweithdrefn” yn lle'r gair “gweithdrefnau.”

(3) Yn y testun Cymraeg, yn erthygl 8(1) rhodder y gair “weithdrefn” yn lle'r gair “weithdrefnau.”

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru.

2 Tachwedd 2009

(**1**) 2006 p.5.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2009/2816 (Cy.243)

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009.

Yn benodol mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio erthyglau 7(1)(ch) ac 8(1) o ran y testun Cymraeg yn unig, gan ddisodli'r gair “gweithdrefnau” ac yn ei le rhoi'r gair “gweithdrefn”.